Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2018

Ar 2 Hydref 2017, cafodd y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 19 Medi 2017, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 19 Medi 2017, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 9 Mawrth 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 18 Mai 2018, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd 2018, cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i'r dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad yng Nghyfnod 2 gael ei ymestyn tan 8 Chwefror 2019, yn dilyn cytuno'r penderfyniad ariannol ar 17 Gorffennaf 2018.